# Cysylltiadau Tirwedd Gŵyr Ymgynghoriad



Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol

National Landscapes Association

THE GOWER SOCIETY
CYFEILLION GŴYR

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

# Cyflwyniad: Gweledigaeth Gyffredin ar gyfer Gŵyr

Mae Gŵyr yn lle o harddwch a chymeriad eithriadol — wedi'i lunio gan ei harfordir, ei thiroedd comin, ei choetiroedd, ei gwlyptiroedd, ei ffermydd a'i chymunedau. Mae'n gartref i rai o gynefinoedd a rhywogaethau mwyaf gwerthfawr Cymru, yn ogystal â thirweddau sydd o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol dwfn.

Dros y misoedd diwethaf, mae partneriaeth graidd o sefydliadau a rhanddeiliaid wedi bod yn archwilio datblygu cynnig mawr ar gyfer Landscape Connections yng Ngŵyr. Trwy sgyrsiau cynnar gyda rheolwyr tir, sefydliadau cadwraeth, cymunedau a phartneriaid lleol, mae uchelgais gyffredin wedi dechrau dod i'r amlwg ynghylch dyfodol adfer natur ar draws y penrhyn.

Rydym bellach yn symud i gyfnod ehangach o ymgysylltu â'r cyhoedd i helpu i lunio a chryfhau'r cynnig ymhellach.

Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu ar gyfer rhaglen Landscape Connections Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac mae'n ceisio helpu i ddiogelu, adfer ac ailgysylltu tirweddau a chynefinoedd pwysicaf Gŵyr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth galon y cynnig mae uchelgais gyffredin: creu Gŵyr mwy cysylltiedig a mwy gwydn — lle gall natur ffynnu ac y gall mwy o bobl, yn enwedig pobl ifanc, brofi, deall a gofalu am y tirweddau o'u cwmpas.

Mae'r cynnig hefyd yn ceisio cyfrannu at yr uchelgais ryngwladol gynyddol i ddiogelu a rheoli'n effeithiol 30% o dir a môr er budd natur erbyn 2030 (“30x30”).

# Bydd eich syniadau, eich gwybodaeth a'ch profiadau yn helpu i lunio cam nesaf y cynnig.

Mae'r trafodaethau a'r syniadau a rannwyd hyd yma wedi helpu i lunio cyfeiriad datblygol y prosiect. Mae'r cam nesaf hwn yn gyfle i ddod â'r sgyrsiau hynny ynghyd, clywed ystod ehangach o safbwyntiau a pharhau i ddatblygu cynnig sy'n adlewyrchu anghenion, uchelgeisiau a gwybodaeth y cymunedau a'r tirweddau y mae'n ceisio eu cefnogi.

Rydym am glywed gan gymunedau, rheolwyr tir, sefydliadau, ysgolion, gwirfoddolwyr, busnesau lleol ac unrhyw un sy'n poeni am ddyfodol Gŵyr. Bydd eich syniadau, eich gwybodaeth a'ch profiadau yn helpu i lunio cam nesaf y cynnig.

Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol
National Landscapes Association

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

# Pam Gŵyr?

O diroedd comin gwyntog a glaswelltiroedd llawn blodau i goetiroedd hynafol, morfeydd heli ac arfordir dramatig, mae Gŵyr yn cynnwys rhai o'r tirweddau pwysicaf a mwyaf nodedig yng Nghymru.

Mae'r tirweddau hyn yn cynnal amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt ac yn darparu lle ar gyfer hamdden, dysgu, ffermio, diwylliant a llesiant.

Fodd bynnag, mae'r cynefinoedd hyn dan bwysau cynyddol oherwydd darnio cynefinoedd, colli cynefinoedd, rhywogaethau goresgynnol, newid hinsawdd a newidiadau mewn arferion rheoli tir.

Nid yw diogelu natur yn unig yn ddigon mwyach. Er mwyn cyflawni uchelgeisiau 30x30, rhaid i dirweddau ddod yn iachach, yn fwy gwydn ac yn fwy cysylltiedig, gyda gwaith adfer natur yn digwydd nid yn unig o fewn safleoedd gwarchodedig ond ar draws y dirwedd ehangach.

Nod y cynnig hwn yw adeiladu ar gryfderau Gŵyr a'i helpu i ddod yn enghraifft flaenllaw o adfer natur cydweithredol sy'n seiliedig ar le yng Nghymru.

# Ein Blaenoriaethau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth galon y prosiect mae ymrwymiad i adfer a chryfhau'r tirweddau naturiol sy'n gwneud Gŵyr mor arbennig.

Rydym am weithio'n gydweithredol gyda rheolwyr tir, porwyr, cymunedau a sefydliadau partner i wella cyflwr safleoedd pwysig a helpu i'w hailgysylltu ar draws y dirwedd ehangach.

Bydd rhan allweddol o'r cynnig yn cynnwys nodi lle gellir cryfhau cysylltedd cynefinoedd, gan gynnwys adfer coridorau ecolegol, gwella “cerrig camu” rhwng safleoedd a gweithio gyda thirfeddianwyr i gefnogi arferion rheoli sy'n gyfeillgar i natur.

Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu uchelgeisiau ehangach 30x30 drwy gydnabod na all adfer natur ddigwydd drwy safleoedd gwarchodedig ynysig yn unig. Mae ecosystemau iach yn dibynnu ar dirweddau cysylltiedig, stiwardiaeth hirdymor a gweithredu cydweithredol.

## Gweithio gyda Ffermwyr, Porwyr a Thirfeddianwyr

Mae tirweddau Gŵyr wedi'u siapio dros genedlaethau drwy ffermio, pori a rheoli tir.
Mae'r prosiect hwn yn cydnabod na ellir cyflawni adfer natur hirdymor i ffermwyr a thirfeddianwyr — dim ond gyda nhw y gellir ei gyflawni.

Bwriad y cynnig felly yw bod yn gydweithredol o'r cychwyn cyntaf, gan adeiladu ar wybodaeth leol, stiwardiaeth bresennol a phrofiad ymarferol ffermwyr, porwyr a chominwyr.

Gallai hyn gynnwys cyfleoedd ym maes pori cadwraethol, adfer gwlyptiroedd, gwella gwrychoedd, coridorau cynefinoedd a rheolaeth fwy cydgysylltiedig rhwng tiroedd comin a thir amaeth cyfagos.

Gallai'r gwaith hefyd helpu ffermwyr a thirfeddianwyr i ymateb yn well i bolisïau amgylcheddol a chyfleoedd cyllido newydd, gan gynnwys Cynllun Ffermio Cynaliadwy'r dyfodol (SFS).

## Cysylltu Pobl â Lle

Yr un mor bwysig ag adfer natur yw cryfhau perthynas pobl â'r dirwedd o'u cwmpas.

Nod y prosiect yw creu cyfleoedd ystyrlon i bobl o bob oed gysylltu â thirweddau a bywyd gwyllt Gŵyr drwy ddysgu, cyfranogi a phrofiadau a rennir.
Bydd ffocws arbennig ar blant a phobl ifanc, gan helpu i ysbrydoli chwilfrydedd, hyder ac ymdeimlad parhaol o gysylltiad â'r byd naturiol.

Trwy ddysgu yn yr awyr agored, gwirfoddoli, datblygu sgiliau, gwaith cadwraeth ymarferol a chyfleoedd hyfforddi, rydym yn gobeithio cefnogi'r genhedlaeth nesaf o stiwardiaid amgylcheddol.

Gallai'r prosiect hefyd helpu i greu llwybrau i yrfaoedd amgylcheddol ac adeiladu sgiliau hirdymor sy'n gysylltiedig â chadwraeth, rheoli tir ac adfer natur.

Drwy gysylltu mwy o bobl â natur, nod y prosiect yw cryfhau'r gefnogaeth gyhoeddus a'r stiwardiaeth hirdymor sydd eu hangen i gynnal adfer natur ymhell y tu hwnt i oes y prosiect ei hun.

## Archwilio Sut y Gallai Tirwedd Cysylltiedig Weithio yn Ymarferol

Bwriad yr atodiadau sy'n cynnwys "senarios enghreifftiol" yw rhoi syniad o'r mathau o weithgareddau a dulliau y gallai prosiect Landscape Connections eu cefnogi ar draws Gŵyr.

Nid cynigion terfynol mohonynt, ond enghreifftiau a luniwyd i helpu i ddangos cyfeiriad datblygol y prosiect ac i annog syniadau, trafodaeth ac adborth.

Gobeithiwn y bydd yr enghreifftiau hyn yn helpu cymunedau, rheolwyr tir, sefydliadau a rhanddeiliaid i gyfrannu eu gwybodaeth, eu blaenoriaethau a'u hawgrymiadau eu hunain wrth i'r cynnig barhau i ddatblygu.

# MSenario Enghreifftiol 1
# Adfer Natur ar Waith
# Adfer Comin Cefn Bryn er Budd Bywyd Gwyllt, y Dirwedd a Chenedlaethau'r Dyfodol

## Cyflwyniad

Mae Cefn Bryn yn un o dirweddau diffiniol Gŵyr. Yn ymestyn ar draws asgwrn cefn y penrhyn, mae ei diroedd comin agored, ei rostiroedd, ei laswelltiroedd a'i ardaloedd gwlyb yn rhan o Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Tiroedd Comin Gŵyr a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Comin Cefn Bryn. Fel safle sydd wedi'i ddynodi'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, mae Cefn Bryn eisoes yn cyfrannu at uchelgeisiau “30x30” — yr ymrwymiad rhyngwladol i ddiogelu a rheoli'n effeithiol 30% o dir a môr er budd natur erbyn 2030. Fodd bynnag, nid yw dynodiad yn unig yn gwarantu adferiad ecolegol. Mae sicrhau cyflwr ecolegol ffafriol a gwydnwch hirdymor yn gofyn am reolaeth weithredol, cydweithio a stiwardiaeth gynaliadwy.

Mae'r senario enghreifftiol hwn yn archwilio sut y gallai prosiect Cysylltiadau Tirwedd gefnogi safleoedd fel Cefn Bryn fel rhan o raglen ehangach o adfer natur ar draws Gŵyr — gan gyfuno adfer cynefinoedd, pori cadwraethol, arloesedd, cyfranogiad cymunedol a chysylltedd ar raddfa tirwedd.
Yn bwysig, bwriad y syniadau a amlinellir yma yw ysgogi trafodaeth ac adborth. Nid cynigion pendant mohonynt, ond enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau y gellid eu harchwilio drwy'r prosiect.

# Gweledigaeth ar gyfer Cefn Bryn

Yr uchelgais ar gyfer Cefn Bryn fyddai creu tirwedd comin iachach a mwy gwydn lle mae cynefinoedd yn gwella, systemau pori yn gynaliadwy, a bywyd gwyllt yn fwy cysylltiedig ar draws tirwedd ehangach Gŵyr.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar y tir comin ei hun yn unig, byddai'r prosiect yn edrych ar sut mae Cefn Bryn yn cysylltu â thir amaeth cyfagos, gwlyptiroedd, gwrychoedd a thiroedd comin a SoDdGAau eraill ar draws Gŵyr. Y nod fyddai cryfhau'r cysylltiadau ecolegol hyn fel bod cynefinoedd yn gweithredu'n fwy effeithiol fel rhan o rwydwaith ehangach o adfer natur.

Ar yr un pryd, byddai'r prosiect yn ceisio cryfhau cydweithrediad rhwng porwyr, ffermwyr, tirfeddianwyr, cymunedau a sefydliadau cadwraeth — gan gydnabod bod adfer natur hirdymor yn dibynnu ar waith partneriaeth a rheolaeth ymarferol o'r tir.

Gallai'r prosiect hefyd ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer cyfranogiad yn y dyfodol yng Nghynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), yn enwedig yr elfennau dewisol a chydweithredol y disgwylir iddynt gefnogi adfer cynefinoedd ar raddfa tirwedd, cysylltedd a rheolaeth amgylcheddol gydweithredol.

Yn yr ystyr hwn, gallai Cysylltiadau Tirwedd weithredu fel ffrwd waith alluogi a pharatoi — gan helpu i adeiladu partneriaethau, profi dulliau gweithredu, datblygu cynlluniau cynefinoedd a chefnogi gweithredu ymarferol sy'n ategu cyfeiriad polisi cymorth ffermio Cymru yn y dyfodol.

# Adfer Cyflwr Cynefinoedd

Mae cyfoeth ecolegol Cefn Bryn yn dibynnu ar reolaeth weithredol. Heb ymyrraeth, gall cynefinoedd a oedd unwaith yn amrywiol ac yn gyfoethog mewn rhywogaethau ddod yn rhai a ddominyddir gan brysgwydd, rhedyn a glaswelltau bras.
Mae Adroddiad Pori Tiroedd Comin Gŵyr CNC yn tynnu sylw at bwysigrwydd pori wrth gynnal cynefinoedd megis glaswelltir molinia a rhostir gwlyb. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd pori ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu'r tiroedd comin.

Gallai gweithgareddau adfer posibl gynnwys:

- Rheoli prysgwydd a rhedyn
- Adfer ardaloedd gwlyb a glaswelltir corsiog
- Gwella cynefinoedd peillwyr
- Dileu rhywogaethau goresgynnol
- Rheoli llystyfiant ar sail cylchdro
- Adfer hydrolegol ar raddfa fach
- Adfer "cerrig camu" cynefinoedd rhwng ardaloedd dameidiog

Gallai cyllideb adfer flynyddol benodedig helpu i gyflawni ymyriadau ymarferol ar Gefn Bryn ac ar draws cynefinoedd cyfagos lle mae hyn yn cyfrannu at gysylltedd ecolegol ehangach.

Yn hytrach na chymhwyso ymyriadau'n unffurf, byddai gweithgarwch yn cael ei lywio gan fapio cynefinoedd, asesiadau ecolegol a monitro parhaus er mwyn nodi lle gallai gwaith adfer sicrhau'r budd mwyaf.

## Cefnogi Pori Cynaliadwy

Byddai pori cadwraethol yn parhau i fod yn ganolog i adfer cynefinoedd ar Gefn Bryn, ond y ffocws fyddai ar gefnogi'r pori cywir, yn y lleoedd cywir, ar yr adegau cywir.

Mae gwahanol rywogaethau o dda byw yn rhyngweithio â'r dirwedd mewn ffyrdd gwahanol. Gall gwartheg a merlod, er enghraifft, helpu i reoli prysgwydd a llystyfiant bras, tra gall defaid gynnal llystyfiant byrrach mewn ardaloedd eraill. Gallai'r prosiect archwilio dulliau mwy hyblyg a chydweithredol o reoli pori, gan gynnwys:

- Patrymau pori tymhorol a thargedig
- Systemau pori cymysg
- "Pori pwls" tymor byr
- Mentrau pori ar y cyd rhwng porwyr
- Cydlynu pori yn well ar draws ardaloedd comin
- Gwelliannau seilwaith sy'n cefnogi rheoli da byw

Gallai'r prosiect hefyd archwilio dulliau arloesol sy'n helpu i gryfhau rheolaeth cynefinoedd ac ymgysylltu'r cyhoedd.
Gallai hyn gynnwys:

- Clybiau pori cymunedol sy'n helpu pobl i ddeall a chefnogi hawliau comin
- Mentrau "rhentu buwch" neu nawdd da byw
- Prosiectau pori arddangos
- Mentrau cymorth gwirfoddol sy'n gysylltiedig â rheoli cynefinoedd

Gallai technoleg hefyd chwarae rhan. Gallai'r prosiect archwilio systemau pori rhithwir neu "ddi-ffens" gan ddefnyddio coleri GPS, gan adeiladu ar ddulliau sydd eisoes yn cael eu profi drwy fentrau megis prosiect Coleri Comin Gŵyr.
Gallai'r dulliau hyn helpu i:

- Gyfeirio pwysau pori yn fwy manwl
- Leihau dibyniaeth ar ffensys corfforol
- Cefnogi rheolaeth gynefinoedd hyblyg
- Gwella cydlynu ar draws tirweddau comin dameidiog

## Arloesedd, Monitro a Chyfranogiad

Gallai'r prosiect hefyd archwilio sut y gall arloesedd, technoleg a chyfranogiad cymunedol gefnogi adfer natur hirdymor.
Gallai technoleg dronau a mapio cynefinoedd digidol helpu i fonitro newidiadau mewn cynefinoedd, nodi blaenoriaethau adfer a gwella dealltwriaeth o gysylltedd ecolegol ar draws y dirwedd ehangach.

Gallai hyn gefnogi:

- Monitro ymlediad prysgwydd
- Asesu cyflwr cynefinoedd
- Olrhain cynnydd gwaith adfer
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd cynefinoedd
- Cefnogi gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion ac addysg

Byddai cyfranogiad cymunedol hefyd yn ganolog i'r prosiect.

Gallai'r prosiect gefnogi:

- Rhaglenni gwyddoniaeth dinasyddion
- Arolygon peillwyr a rhywogaethau
- Monitro cynefinoedd
- Cofnodi bioamrywiaeth gymunedol
- Gweithgareddau cadwraeth i bobl ifanc

Cyfleoedd gwirfoddoli ymarferol

Yn ogystal â gwirfoddoli rheolaidd, gallai'r prosiect hefyd dreialu dulliau mwy hyblyg megis “fflach-fobiau gwirfoddoli” — digwyddiadau cadwraeth byr, ymarferol iawn sy'n canolbwyntio ar weithgareddau adfer cynefinoedd gweladwy.

Gallai'r dulliau hyn helpu i wneud cyfranogiad yn fwy hygyrch tra'n adeiladu dealltwriaeth ehangach o sut mae tirweddau comin yn cael eu rheoli a'u hadfer.

## Ailgysylltu Natur ar draws Gŵyr

Er bod Cefn Bryn yn ardal gynefinoedd bwysig ynddi'i hun, mae adfer rhywogaethau yn dibynnu fwyfwy ar dirweddau sy'n gweithredu fel rhwydweithiau ecolegol cysylltiedig yn hytrach na safleoedd ynysig.
Byddai prosiect Cysylltiadau Tirwedd felly yn edrych y tu hwnt i Gefn Bryn ei hun ac yn archwilio sut y gall cynefinoedd ar draws Gŵyr ddod yn fwy cysylltiedig dros amser.

Gallai hyn gynnwys:

- Adfer coridorau cynefinoedd
- Gwella gwrychoedd ac ymylon caeau
- Ailgysylltu gwlyptiroedd a chynefinoedd corsiog
- Cefnogi adfer cynefinoedd ar dir amaeth cyfagos
- Nodi a chryfhau cynefinoedd “cerrig camu” rhwng tiroedd comin a SoDdGAau

Drwy gefnogi cynllunio cydweithredol, mapio cynefinoedd a gwaith adfer ymarferol, gallai'r prosiect hefyd helpu rheolwyr tir i baratoi ar gyfer cyfleoedd cydweithredol y SFS yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol ar raddfa tirwedd.

## Gweithio Gyda'n Gilydd

Bydd adfer Cefn Bryn yn gofyn am gydweithio rhwng cominwyr, porwyr, ffermwyr, sefydliadau cadwraeth, cymunedau a phobl ifanc.
Nod y prosiect yw adeiladu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r perthnasoedd sydd eisoes yn bodoli ar draws Gŵyr, gan greu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd a gweithredu cydweithredol.

Yn bwysig, bwriad y senario enghreifftiol hwn yw bod yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth yn hytrach na chynllun terfynol.

# Senario Enghreifftiol 2
# Ymgysylltu ac Allgymorth O'r Ystafell Ddosbarth i Stiwardiaeth

## Cyflwyniad

Mae'r senario enghreifftiol hwn yn dangos sut y gallai prosiect Cysylltiadau Tirwedd Gŵyr helpu i greu taith ymgysylltu hirdymor i bobl ifanc sy'n dechrau gyda chwilfrydedd a darganfod ac sy'n datblygu'n raddol yn gyfranogiad, stiwardiaeth ac arweinyddiaeth o fewn tirweddau Gŵyr.

Bwriad y senario yw dangos y math o lwybr ymgysylltu ieuenctid y gallai'r prosiect ei gefnogi ochr yn ochr â'i raglen ehangach o adfer cynefinoedd ac adfer natur ar raddfa tirwedd.

Wrth ei wraidd mae'r gydnabyddiaeth mai anaml y caiff cysylltiadau ystyrlon â natur eu creu drwy un ymweliad neu weithgaredd yn unig. Maent yn cael eu meithrin dros amser drwy brofiadau ailadroddus, cyfranogiad ymarferol a chyfleoedd i deimlo'n rhan o rywbeth mwy.

Gallai'r prosiect felly gefnogi taith ymgysylltu haenog, gan ddechrau mewn ystafelloedd dosbarth a chymunedau cyn symud ymlaen at brofiadau uniongyrchol yng Ngŵyr ei hun ac, i rai pobl ifanc, tuag at lwybr mwy strwythuredig tebyg i Geidwad Iau sy'n gysylltiedig â stiwardiaeth y dirwedd.

# Ymwybyddiaeth: Darganfod Gŵyr

I lawer o bobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cymunedau trefol neu sydd â mynediad cyfyngedig at yr awyr agored, gallai'r daith ddechrau cyn iddynt brofi tirweddau Gŵyr yn gorfforol.

Bydd adnoddau dysgu dwyieithog a deunyddiau addysgol creadigol megis mapiau rhyngweithiol, ffilmiau byr, adnoddau adrodd straeon a gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion yn galluogi ysgolion a sefydliadau ieuenctid i archwilio cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Gŵyr yn yr ystafell ddosbarth.

Gall swyddogion gweithgareddau a sefydliadau partner hefyd ddod â thirweddau Gŵyr i ysgolion drwy ymweliadau a gweithdai rhyngweithiol sy'n gwneud adfer natur yn berthnasol ac yn ddealladwy.

Drwy'r gweithgareddau hyn bydd pobl ifanc yn dechrau gweld eu hunain yn gysylltiedig â'r dirwedd ehangach o'u cwmpas ac yn datblygu hyder ac ymdeimlad o bwrpas yn eu hymateb iddi.

.

## Profiad: Profi Gŵyr yn Uniongyrchol

I lawer o bobl ifanc, byddai'r sylfaen hon yn dechrau gyda phrofiadau cadarnhaol a chefnogol o fewn tirweddau Gŵyr eu hunain. Gallai ymweliadau â thiroedd comin, gwlyptiroedd, arfordiroedd a safleoedd adfer ddarparu cyfleoedd i dreulio amser ym myd natur mewn ffyrdd croesawgar, cymdeithasol ac ystyrlon.

Yn hytrach na dim ond arsylwi'r dirwedd, gallai pobl ifanc gymryd rhan mewn teithiau tywys, gweithgareddau creadigol neu dasgau cadwraeth cychwynnol ochr yn ochr â gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol.
Dealltwriaeth: Dysgu drwy Gyfranogiad
Wrth i hyder a chynefindra gynyddu, gallai'r profiadau hyn ddyfnhau i gyfranogiad mwy gweithredol mewn deall sut mae tirweddau'n cael eu hadfer a'u rheoli.

Gallai pobl ifanc helpu i glirio prysgwydd goresgynnol, cymryd rhan mewn arolygon rhywogaethau, cynorthwyo gyda monitro cynefinoedd neu gyfrannu at waith adfer ymarferol. Trwy gyfranogiad uniongyrchol byddent yn datblygu dealltwriaeth gryfach o gynefinoedd, adfer rhywogaethau, arferion ffermio a'r heriau cadwraeth sy'n siapio tirweddau Gŵyr.

### Cyfranogiad: Datblygu Llwybr Ceidwad Iau

I'r rhai sydd am barhau â'u cyfranogiad, gallai'r prosiect gefnogi llwybr mwy strwythuredig tebyg i Geidwad Iau wedi'i ysbrydoli gan ddulliau a ddefnyddir mewn tirweddau gwarchodedig ledled Ewrop.

Gallai pobl ifanc ddatblygu sgiliau cadwraeth ymarferol yn raddol wrth adeiladu ymdeimlad cryfach o hunaniaeth a pherthyn sy'n gysylltiedig â'r dirwedd. Gallent gyfrannu at fonitro cynefinoedd, cofnodi rhywogaethau, tasgau cadwraeth ymarferol neu gyfathrebu straeon adfer natur yn eu hysgolion a'u cymunedau.

Gallai technoleg megis dronau, mapio digidol ac arolygon bioamrywiaeth cymunedol hefyd ffurfio rhan o'r profiad.

## Pam Mae Hyn yn Bwysig

Nid yw adfer natur yn ymwneud ag adfer cynefinoedd yn unig. Mae hefyd yn ymwneud ag adfer perthnasoedd — rhwng pobl a'r dirwedd, cymunedau a stiwardiaeth, dysgu a chyfranogiad.

Drwy greu taith o ddarganfod yn yr ystafell ddosbarth i gyfranogiad gweithredol wrth ofalu am dirweddau Gŵyr, gallai prosiect Cysylltiadau Tirwedd helpu i ddatblygu'r gefnogaeth, y sgiliau a'r stiwardiaeth hirdymor sydd eu hangen er mwyn i adfer natur lwyddo.

Yn bwysicaf oll, gallai helpu i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn profi Gŵyr nid yn unig fel ymwelwyr, ond fel cyfranogwyr gweithredol wrth lunio ei dyfodol

.